

AUR  
PUR

---

Yn y dechreuad yr oedd  
y Gair,  
a'r Gair oedd gyda Duw,  
a Duw oedd y Gair.

S. Ioan 1:1

Ynndo ef yr oedd bywyd;  
a'r bywyd oedd  
oleuni dynion.

S. Ioan 1:4

---

Goleuni'r byd ydwyf fi:  
yr hwn a'm dilyno i,  
ni rodia mewn tywyllwch,  
eithr efe a gaiff  
oleuni'r bywyd.  
S. Ioan 8:12

Yr Iesu a ddywedodd  
wrtho ef, Myfi yw'r ffordd,  
a'r gwirionedd, a'r bywyd:  
nid yw neb yn dyfod  
at y Tad, ond trwof fi.  
S. Ioan 14:6

---

Od oes ar neb syched,  
deued ataf fi, ac yfed.  
Yr hwn sydd  
yn credu ynof fi,  
megis y dywedodd  
yr ysgrythur,  
afonydd o ddwfr bywiol  
a ddylifant o'i groth ef.

S. Ioan 7:37, 38

---

Ond efe a archollwyd  
am ein camweddau ni,  
efe a ddrylliwyd  
am ein hanwireddau ni:  
cosbedigaeth  
ein heddwch ni  
oedd arno ef:  
a thrwy ei gleisiau ef  
yr iachawyd ni.

Eseia 53:5

---

Wele, yr wyf yn sefyll  
wrth y drws, ac yn curo:  
os clyw neb fy llais i,  
ac agoryd y drws,  
mi a ddeuaf  
i mewn ato ef,  
ac a swperaf gydag ef.  
Datguddiad 3:20

Ar fod Crist  
yn trigo trwy ffydd  
yn eich calonnau chwi.

Effesiaid 3:17

---

Yn wir, yn wir,  
meddaf i chwi,  
Y neb sydd yn gwrando  
fy ngair i,  
ac yn credu  
i'r hwn a'm hanfonodd i,  
a gaiff fywyd tragwyddol,  
ac ni ddaw i farn;  
eithr efe a aeth trwodd  
o farwolaeth i fywyd.

S. Ioan 5:24

---

Canys felly  
y carodd Duw y byd  
fel y rhoddodd efe  
ei unig-anedig Fab,  
fel na choller  
pwy bynnag a greddo  
ynddo ef,  
ond caffael ohono  
fywyd tragwyddol.

S. Ioan 3:16

---

Deuwch ataf fi  
bawb a'r y sydd  
yn flinderog  
ac yn llwythog,  
a mi a esmwythâf arnoch.  
Canys fy iau  
sydd esmwyth,  
a'm baich  
sydd ysgafn.

S. Mathew 11:28, 30

---

Canys cyflog pechod  
yw marwolaeth;  
eithr dawn Duw  
yw bywyd tragwyddol,  
trwy Iesu Grist  
ein Harglwydd.

Rhufeiniaid 6:23

O Dduw, bydd drugarog  
wrthyf bechadur.

S. Luc 18:13

---

Nid oes gan hynny yn awr  
ddim damnedigaeth  
i'r rhai  
sydd yng Nghrist Iesu.  
Rhufeiniaid 8:1

Eithr y pethau hyn a  
ysgrifennwyd,  
fel y credoch chwi  
mai yr Iesu yw Crist,  
Mab Duw; a chan gredu,  
y caffoch fywyd  
yn ei enw ef.  
S. Ioan 20:31

---

Llawenhewch ...  
am fod eich enwau  
yn ysgrifenedig  
yn y nefoedd.  
S. Luc 10:20

Am hynny, gan ein bod  
wedi ein cyfiawnhau  
trwy ffydd,  
y mae gennym heddwch  
tuag at Dduw, trwy ein  
Harglwydd Iesu Grist.

Rhufeiniaid 5:1

---

Deuwch;  
cynys weithian y mae  
pob peth yn barod.

S. Luc 14:17

Beth sydd raid i mi  
ei wneuthur,  
fel y byddwyf gadwedig?  
...Cred yn yr Arglwydd  
lesu Grist, a chadwedig  
fyddi, ti a'th deulu.

Yr Actau 16:30, 31

---

Derbyn pawb a greddo  
ynddo ef  
faddeuant pechodau  
trwy ei enw ef.

Yr Actau 10:43

Yr hwn a draddodwyd  
dros ein pechodau ni,  
ac a gyfodwyd  
i'n cyfiawnhau ni.

Rhufeiniaid 4:25

---

Ond cynifer  
ag a'i derbyniasant ef,  
efe a roddes iddynt allu  
i fod yn feibion i Dduw,  
sef i'r sawl a gredant  
yn ei enw ef.

S. Ioan 1:12

Edifarhewch gan hynny,  
a dychwelwch, fel  
y dilëer eich pechodau.

Yr Actau 3:19

---

A'r hwn a ddêl ataf fi,  
nis bwriaf ef allan ddim.

S. Ioan 6:37

Canys Mab y dyn  
a ddaeth i geisio  
ac i gadw  
yr hyn a gollasid.

S. Luc 19:10

---

Claddwyd ni gan hynny  
gydag ef trwy  
fedydd i farwolaeth:  
fel megis ag  
y cyfodwyd Crist  
o feirw trwy  
ogoniant y Tad,  
felly y rhodiom  
ninnau hefyd  
mewn newydd-deb  
buedd.

Rhufeiniaid 6:4

---

Ac wele, yr ydwyf fi  
gyda chwi bob amser  
hyd ddiwedd y byd.

S. Mathew 28:20

Llewyrched felly eich  
goleuni gerbron dynion,  
fel y gwelont eich  
gweithredoedd da chwi,  
ac y gogoneddont  
eich Tad yr hwn sydd  
yn y nefoedd.  
S. Mathew 5:16

---

Y mae fy nefaid i  
yn gwrando fy llais i;  
a mi a'u hadwaen hwynt,  
a hwy a'm canlynant i:  
A minnau ydwyf  
yn rhoddi iddynt  
fywyd tragwyddol;  
ac ni chyfrgollant byth,  
ac ni ddwg neb hwynt  
allan o'm llaw i.

S. Ioan 10:27,28

---

Crist yntau  
a ddioddefodd drosom ni,  
gan adael i ni esampl,  
fel y canlynech ei ôl ef.

1 Pedr 2:21

Ymdrecha  
hardd-deg ymdrech  
y ffydd.

1 Timotheus 6:12

---

Canys trwy ras yr ydych  
yn gadwedig, trwy ffydd;  
a hynny nid ohonoch eich  
hunain: rhodd Duw ydyw:  
Nid o weithredoedd,  
fel nad ymffrostiai neb.

Effesiaid 2:8, 9

Ac i Dduw  
y byddo'r diolch  
am ei ddawn anhraethol.

2 Corinthiaid 9:15

---

Eithr os rhodiwn  
yn y goleuni,  
megis y mae efe  
yn y goleuni,  
y mae i ni  
gymdeithas â'n gilydd,  
a gwaed  
Iesu Grist ei Fab ef,  
sydd yn ein glanhau ni  
oddi wrth bob pechod.

1 Ioan 1:7

A chariad tragwyddol  
y'th gerais:  
am hynny  
tynnais di â thrugaredd.

Jeremeia 31:3

Nac ofna;  
canys yr ydwyf fi  
gyda thi.

Eseia 41:10

Yr wyf fi yn myned  
i baratoi lle i chwi.  
Ac os myfi a af,  
ac a baratoaf le i chwi,  
mi a ddeuaf drachefn,  
ac a'ch cymeraf chwi  
ataf fy hun;  
fel lle yr wyf fi,  
y byddoch  
chwithau hefyd.

S. Ioan 14:2, 3

---

Gwywa y gwelltyn,  
syrth y blodeuyn;  
ond gair ein DUW ni  
a saif byth.

Eseia 40:8

Y nef a'r ddaear  
a ânt heibio;  
ond fy ngeiriau i  
nid ânt heibio ddim.

S. Luc 21:33

---

Beth bynnag oll a  
geisioch wrth weddïo  
credwch y derbyniwch,  
ac fe fydd i chwi.

S. Marc 11:24

Rhodiwch yn yr Ysbryd,  
ac na chyflawnwch  
drachwant y cnawd.

Galatiaid 5:16

Ac na thristewch  
Lân Ysbryd Duw.

Effesiaid 4:30

Canys pwy bynnag  
fyddo cywilydd ganddo fi  
a'm geiriau,  
hwnnw fydd gywilydd  
gan Fab y dyn,  
pan ddelo yn ei ogoniant  
ei hun,  
a'r Tad,  
a'r angylion sanctaidd.

S. Luc 9:26

---

Oblegid yr Arglwydd ei  
hun a ddisgyn o'r nef  
gyda bloedd ...a'r meirw  
yng Nghrist a gyfodant yn  
gyntaf: Yna ninnau'r rhai  
byw, y rhai a adawyd, a  
gipir i fyny gyda hwynt yn  
y cymylau, i gyfarfod â'r  
Arglwydd yn yr awyr:  
ac felly y byddwn  
yn wastadol  
gyda'r Arglwydd.

1 Thesalonïaid 4:16, 17

---

Ac mi a welais  
nef newydd,  
a daear newydd ...  
Ac fe sych Duw ymaith  
bob deigr oddi wrth  
eu llygaid hwynt;  
a marwolaeth  
ni bydd mwyach,  
na thristwch, na llefain,  
na phoen ni bydd  
mwyach: oblegid y pethau  
cyntaf a aeth heibio.

Datguddiad 21:1, 4

---

Ac wele, yr wyf yn dyfod  
ar frys;  
A'r hwn  
sydd â syched arno,  
deued.  
A'r hwn sydd  
yn ewyllysio,  
cymered ddwfr y bywyd  
yn rhad.  
Amen.  
Yn wir, tyred,  
Arglwydd Iesu.

Datguddiad 22:12, 17, 20

---

Darllenwch y Beibl, y mae yn air Duw. Gwrandewch ar lais yr Arglwydd. Y mae'r Duw dyrchafedig a byw yn meddwl amdano. Y mae eisiau i chi wybod ei gariad heddiw. Mae ei air yn rhoi gwybodaeth anffaeledig am y ffordd i wir lawenydd a thangnefedd. Os hoffech Destament Newydd fe allwn ddanfoni gopi i chi yn rhad ac am ddim. Os oes gennych gwestiwn – fe fyddwn ni wrth ein bodd yn ceisio ei ateb.

---

Darllenwch y Beibl, Gair Duw yw.  
Gwrandewch ar lais yr Arglwydd. Mae gofal  
amdanoch gan y Duw bywiol a dyrchafedig. Y  
mae eisiau i chi wybod am ei gariad heddiw.  
Mae ei air yn rhoi gwybodaeth anffaeledig i chi  
am y ffordd i wir lawenydd a thangnefedd. Os  
hoffech Destament Newydd fe allwn ddanfôn  
copi i chi yn rhad ac am ddim. Os oes  
gennych gwestiwn – fe wnawn ni ein gorau  
glas i'w ateb.

- Please send me a New Testament (I do not own one)  
 I would like to follow a Bible Correspondence Course  
If under 16 please give date of birth \_\_ / \_\_ / \_\_

Name \_\_\_\_\_

Address \_\_\_\_\_

**BIBLE DISTRIBUTORS –**

Fountain House, Conduit Mews, London, SE18 7AP UK

✂-----

Rhodd oddi wrth:  
Bible Distributors  
Fountain House  
Conduit Mews,  
London, SE18 7AP  
Croeso i Deulu Duw  
© 2005 Chapter Two, London

Y Beibl Cysegr-lân: sef yr Hen  
Destament a'r Newydd.  
Llundain: Cymdeithas Feiblaidd  
y Trindodwyr, 1992.  
© BFBS 1992

Dyfyniadau Cymraeg o  
gyfieithiad *William Morgan*.  
*Cymraeg – Welsh*